**Detholiad o Eseia 35**

Bydd yr anialwch a'r tir sych yn llawen,
bydd y diffeithwch yn dathlu ac yn blodeuo.
Cryfhewch y dwylo llesg; a gwnewch y gliniau gwan yn gadarn.
Dwedwch wrth y rhai ofnus,
“Byddwch yn ddewr, peidiwch bod ag ofn. Edrychwch ar eich Duw.
Mae e'n dod i ddial ar eich gelynion! Y tâl dwyfol!
Ydy, mae e'i hun yn dod i'ch achub chi!”

**Colect ar gyfer yr Adfent**

Arglwydd Iesu Grist, mae dy fyd yn disgwyl amdanat.
Mae pobl sy'n cael eu herlid yn dyheu am gyfiawnder;
Mae pobl sy'n dlawd yn dyheu am lewyrch;
Mae pobl freintiedig yn dyheu am gyfoeth sy'n fwy na golud byd;
Mae ein calonnau'n dyheu am fywyd gwell;
ac mae cân dy Eglwys yn llawn disgwyliad amdanat.
O tyrd, Arglwydd, ti yw'r dyhead y tu ôl i'n hanghenion dyfnaf.
O tyrd, Arglwydd, ti yw gwaredwr dynoliaeth.
O tyrd, Arglwydd, Tyrd, Emaniwel.

Eglwys yr Alban



# Gweddïo dros Weinidogaethau
## Yr Adfent 2025

Ar **Ddyddiau'r Catgoriau** meddyliwn am Dduw'n galw pobl a gweddïwn dros bawb sy'n ymateb i'w alwad. Mae Dyddiau'r Catgoriau yn digwydd nesaf ar **17, 19 a 20 Rhagfyr.** Gofynnwn i chi weddïo dros holl arweinwyr yr eglwys, y rhai lleyg a'r rhai a ordeiniwyd, a thros bawb sy'n ystyried eu galwad.
Os hoffech chi ystyried galwad Duw arnoch chi, holwch arweinwyr eich Ardal Genhadaeth. Cewch ddysgu mwy am alwad a gweinidogaeth yn https://dioceseofstasaph.org.uk/vocations-and-ministry/ neu sganio'r cod QR isod.



Cristingl



Y Tîm Gweinidogaeth yn Hyb Cenhadol Eglwys yr Holl Saint, y Drenewydd, gyda aelodau o dîm Twf yr Eglwys

## Gweinidogaeth a Chenhadaeth yn Esgobaeth Llanelwy

**Corff Crist:** Ni yw Corff Crist! Rydym ni'n cael ein galw i fyw ac i adrodd stori fawr cariad Duw atom, bob dydd.

**Gweinidogaeth a Gomisiynir yn Lleol:** Ydych chi'n cael eich galw i weinidogaeth fugeiliol neu i arwain addoliad neu i ddysgu'r ffydd yn eich Ardal Genhadaeth? Os felly, ewch i gael sgwrs ag Arweinydd eich Ardal Genhadaeth (AAG) neu'r offeiriad lleol.

**Gweinidogaeth Leyg Drwyddedig:** Ydych chi'n cael eich galw i bregethu ac arwain addoliad, i fod yn gaplan yn eich cymuned neu mewn sefydliad, neu i fod yn gaplan gyda phlant a phobl ifanc? Os felly, gallai Gweinidogaeth Leyg Drwyddedig fod yn addas i chi. Gofynnwch i'ch offeiriad neu AAG i'ch rhoi mewn cysylltiad â Chynghorydd Galwadau.

**Y Weinidogaeth Ordeiniedig:** Ydych chi'n cael eich galw i wasanaethu, i fod yn fugail, yn negesydd, yn wyliedydd ac yn stiward? Ydych chi'n cael eich galw i weinyddu'r cymun, i bregethu'r ffydd, i weinidogaethu ac i fod yn arweinydd yn yr eglwys? Gofynnwch i'ch offeiriad neu AAG i'ch rhoi mewn cysylltiad â Chynghorydd Galwadau.

**Arloesi:** Ydi Duw yn eich galw chi i wneud rhywbeth arall, i arloesi ac i wneud rhywbeth newydd, mewn ffyrdd newydd, mewn llefydd newydd, gyda phobl newydd? Gofynnwch i'ch offeiriad neu AAG i'ch rhoi mewn cysylltiad â Chynghorydd Galwadau.

**Corff Crist:** Beth bynnag yw'ch galwad a'ch gweinidogaeth, sut allwch chi fyw eich ffydd yn Nuw a'i rhannu â phobl eraill heddiw? Os hoffech ddarganfod mwy am hyn, ewch am sgwrs gydag arweinydd eich eglwys.



## Hoffem i chi weddïo dros:

Holl bobl Dduw mewn eglwysi, caplaniaethau ac ysgolion ledled ein hesgobaeth fel y gallwn baratoi ffordd, a bod yn ffordd, i Dduw ei cherdded i'n byd unwaith eto yn nhymor yr Adfent a'r Nadolig eleni.



Rhai o'r ymgeiswyr am urddau o Esgobaeth Llanelwy ac aelodau o staff Athrofa Padarn Sant mewn Diwrnod Ffurfiant yn Llyfrgell Gladstone

**Y rhai a gaiff eu hordeinio'n Offeiriaid ym Mehefin 2026**

David Dobbs (Deacon)
Jampa King (Deacon)
Sharon Morgan (Deacon)
Ian Williams (Deacon)
Glyn Wise (Deacon)

**Y rhai sy'n paratoi i gael eu hordeinio'n Ddiaconiaid yn 2026**

Rob Dawson
Cheryl Hesketh
Elin Douglas Jones
Vicki Stait
Reuben Zwiggelaar

**Y rhai a gychwynnodd ar hyfforddiant i fod yn Offeiriaid ac yn Ddarllenydd yn 2025**

Deborah Catterall (Priest)
Sharon Dean (Priest)
Rhys Parry (Priest)
Joshua Schoch (Priest)
Hazel Lobo (Reader)